Annwyl Syr / Madam

Yn dilyn anfon ein sylwadau yn ddiweddar anfonaf mwy o wybodaeth atoch parthed yr Urdd ym Môn.

Yn amgaeedig mae

1. Adroddiad Blynyddol Ynys Môn
2. Adroddiad Blynyddol Cymru
3. Polisi Iaith y Mudiad

Mae'r ddogfennaeth uchod yn dystiolaeth fod y Gymraeg yn fyw ac yn iach ym Môn, mae'n un o gadarnleoedd y Gymraeg ac mae'n hanfodol bwysig bod Horizon yn blaengynllunio'r ffaith fod cael mewnfudiad o bron i 10,000 o bobl yn symud yma am gyfnod o 10+ mlynedd yn ergyd i ni fel Mudiad o ran y Gymraeg.

Mae'r Gymraeg yn ffynnu ym Môn, gyda mudiadau megis yr Urdd yn gweithio'n galed er mwyn sicrhau dyfodol a pharhad i'n hiaith fel iaith gymunedol fyw. Mae'r gwaith yr ydym yn ei wneud gyda phlant a phobl ifanc (4-25 oed) yn cael ei amlinellu yn ar adroddiad blynyddol uchod. Rydym wedi gweld twf yn ein haelodaeth am y 6 mlynedd diwethaf, mwy a mwy o blant a phobl ifanc yn mwynhau'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth! Mae dros 3000 o aelodau ym Môn a dros 50,000 yn Genedlaethol.

Rydym yn cynnal gweithgareddau yn lleol ar yr ynys gan ddefnyddio adnoddau lleol yr Ynys, o ysgolion i ganolfannau hamdden a neuaddau pentref. Rydym yn credu mewn 'prynu'n lleol' er mwyn sicrhau fod ein gwariant yn aros ar yr ynys, gobeithio lle bosib y Bydd Horizon yn defnyddio cwmnïau a busnesau lleol ar gyfer prynu offer a nwyddau lle'n bosib.

Mae ein holl staff sydd yn gweithio ar yr Ynys yn byw ar yr ynys, pobl Môn yn gweithio dros Fôn. Gobeithion y bydd Horizon yn rhoi'r cyfleoedd gorau posib i drigolion Ynys Môn er budd ein Ynys ni a'n diwylliant ni.

Mae'n rhaid bod Horizon yn annog a chefnogi dysgwyr a mewnfudwyr i ddysgu am ddiwallant a threftadaeth yr Ynys ac mae'n hanfod eu bod yn cyflwyno cyrsiau ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'r broses cyflwyno i'r gwaith. Dylai Horizon gynnig gwersi Cymraeg i bawb sydd yn dymuno ei ddysgu sydd yn gweithio ar y safle ynghyd a chefnogi Athrawon newydd yn ein canolfannau Iaith Gynradd a hefyd cyllido Canolfan Iaith Uwchradd ar yr Ynys.

Mae croeso i chi gysylltu â mi am fwy o wybodaeth

Cofion

Urdd Gobaith Cymru

Ynys Môn

# Urdd Gobaith Cymru

# Adroddiad Blynyddol Ynys Môn 2017 — 2018

*Cefnogwyd gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn*

Derek Evans
**Cadeirydd Pwyllgor Rhanbarth Ynys Môn**




Mae'n parhau i fod yn fraint ac yn anrhydedd cael bod yn Gadeirydd Pwyllgor Rhanbarth Ynys. Môn. Mae wedi bod yn flwyddyn arbennig lle mae aelodaeth yr ynys wedi cynyddu i’r nifer fwyaf erioed UNWAITH ETO!

Hoffwn ddiolch i Gyngor Sir Ynys Môn am eu cefnogaeth i’r mudiad yn lleol. Mae presenoldeb Swyddogion Y Cyngor ynghyd â nifer fawr o gynghorwyr yn ein heisteddfodau Cylch a Rhanbarth yn tystio i weledigaeth y Cyngor ar gyfer plant a phobol ifanc Môn.
Mae’n bleser gweld y Fforwm Ieuenctid yn tyfu o nerth i nerth ac yn Datblygu cyfleoedd newydd i’n Aelodau. Rydym yn hynod falch o fod wedi cefnogi cynllun Prentisiaeth Chwaraeon am yr ail flwyddyn yn olynnol sydd wedi creu swydd i berson ifanc lleol.

Mae adrannau ac aelwydydd yn gweithio’n galed i sicrhau profiadau cyfoethog i’r aelodau hŷn. Mae ymroddiad a brwdfrydedd y bobol ifanc wedi bod yn wych, ac rwy’n mawr obeithio y bydd yr adrannau yn mynd o nerth i nerth ac yn parhau i roi cyfleoedd arbennig i blant a phobol ifanc yr ynys.

Mae llwyddiant yr Eisteddfodau a chyfres o weithgareddau eraill yn ddibynnol wrth gwrs ar gefnogaeth llu o wirfoddolwyr. Mae ein diolch yn fawr i bob rhiant ac athro sydd yn rhoi oriau o'u gwirfodd ar gyfer pobol ifanc Môn. Wrth reswm ni fyddai'r gweithgareddau lu yn effeithiol heb wasanaeth staff y mudiad ar yr Ynys. Mae ein Swyddog Datblygu Mr Eryl Williams yn arwain tim hynod effeithiol ac yn galluogi pob aelod ar yr ynys gael y gorau posib o fod yn aelod o’r mudiad.

Diolch i bawb am eu gwaith caled a phob dymuniad da wrth wynebu’r dyfodol.

Mared Edwards,
**Cadeirydd Fforwm Ieuenctid Rhanbarth Ynys Môn**




Rwyf wedi bod yn aelod o’r Urdd ers i mi fod yn ddim o beth, yn cystadlu mewn Eisteddfodau. Yna yn yr ysgol Uwchradd dechreuais wirfoddoli gyda’r Urdd yn swogio yng Nglan Llyn ac ymuno â’r Fforwm Ieuenctid. Bellach, rwyf ar fy mlwyddyn olaf yn y Chweched Dosbarth, Ysgol Uwchradd Bodedern.

Drwy wirfoddoli gyda’r Urdd rwyf wedi cael profiadau amhrisiadwy ac wedi profi amryw o weithgareddau; boed hynny’n staffio teithiau, gweithio cefn llwyfan neu yn y caffi yn ystod cyfnod yr Eisteddfodau. Cefais hefyd y fraint o gael fy newis fel un o’r criw i deithio i Batagonia llynedd ac roedd hynny ynddo’i hun yn brofiad bythgofiadwy. Roedd y cyfleoedd yma o fudd mawr i mi pan ddaeth yr amser i ysgrifennu datganiad personol a byddant hefyd yn ddefnyddiol iawn wrth greu CV yn y dyfodol.

O ystyried fy mhrofiadau i o wirfoddoli gyda’r Urdd, mi fyddwn yn annog unrhywun sydd yn aelod o’r Urdd i ddechrau gwirfoddoli fel eu bod nhw yn gallu manteisio ar y cyfleoedd sydd gan yr Urdd i’w cynnig.



Cadeirydd: **Dyfrig Davies**
Prif Weithredwr: **Siân Lewis**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

Eryl Williams
**Uwch Swyddog Datblygu**




Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn hynod o brysur gyda llu o weithgareddau, teithiau newydd, a chynnydd yn ein haelodaeth unwaith eto yma ym Môn.


Mae'r nawdd yr ydym yn ei dderbyn gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol ym Môn yn golygu ein bod yn gallu ymestyn y gwasanaeth i gymunedau newydd ar yr Ynys. Mae hyn yn golygu ein bod bellach yn gallu cyflogi Swyddog Ieuenctid llawn amser ar gyfer datblygu'r elfen Ieuenctid o'n gwaith ond hefyd i sicrhau ein bod yn cyrraedd mwy o blant a phobl ifanc yr Ynys. 'Rydym hefyd eleni wedi busoddi mewn Prentis Chwaraeon ar gyfer Canolbarth a dwyrain yr Ynys.

Mae tîm ardderchog o staff,  gwirfoddolwyr a SWOGS yma ym Môn a hyderaf fod yr adroddiad yn dangos y teyrngarwch sydd gan bawb tuag at waith y Mudiad ar yr Ynys.

Diolch o waelod calon i bawb, edrychaf ymlaen at weld beth fydd gan 2018-2019 i'w gynnig!

**Aelodaeth**

Yn ystod y flwyddyn 2017-2018 gwelwyd cynnydd yn ein haelodaeth. Mae hyn yn galonogol dros ben ac yn dangos effaith llafur nifer o'n staff a'n gwirfoddolwyr. Golygai hyn bod yr Urdd ym Môn wir yn darparu cyfleoedd o'r radd flaenaf i'n pobol ifanc a bod ein gweithgareddau'n dal yn atyniadol ers sefydlu'r mudiad 96 mlynedd yn nôl.




| | Cynradd | Bl 7 | Bl 8-13 | 19-25 oed | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| 2012-13 | 1868 | 136 | 329 | 17 | 2350 |
| 2013-14 | 2099 | 164 | 371 | 45 | 2679 |
| 2014-15 | 2096 | 184 | 447 | 41 | 2768 |
| 2015-2016 | 2196 | 157 | 478 | 46 | 2877 |
| 2016-2017 | 2269 | 249 | 503 | 21 | 3042 |
| 2018-2018 | 2288 | 245 | 510 | 13 | 3056 |




Cadeirydd: **Dyfrig Davies**
Prif Weithredwr: **Siân Lewis**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

**GIGS**



Eleni llwyddwyd i ddenu nawdd er mwyn cynnal GIG Cymraeg i bobl ifanc. Llwyddwyd i weld dros 80 o bobl ifanc 14-25 oed yn mwynhau noson yn Cartio Môn gyda rhai o fandiau enwocaf Cymru.

Eleni hefyd gwelwyd dros 1000 o blant yn mwynhau GIGS Dydd Miwsic Cymru oedd yn weithgaredd ar y cyd a'r Siarter Iaith ym Môn.

**Teithiau**

<u>Taith Eidal 2017</u>
Eleni daeth dros 60 o bobl ifanc brwdfrydig a hwyliog ar ein taith i Llyn Garda. Taith oedd yn cael ei chynnig i aelodau bl 9-11 yr Ynys. Roedd yn daith hynod lwyddiannus gyda phobl ifanc ar draws y Rhanbarthau yn cymdeithasu a gwneud ffrindiau oes.

<u>Taith Disneyland, Paris</u>
Unwaith eto eleni gwelwyd dros 80 person ifanc yn mynychu'r daith flynyddol yma. Mae cynnig cyfle i SWOG ifanc gael gwirfoddoli yn arferiad bellach. Cafwyd gwirfoddolwyr newydd yn staffio'r daith eleni, braf yw gweld bod ein hyfforddiant ac achredu yn datblygu pobl ar gyfer ymgymryd â dyletswyddau o'r fath. Mae 80 eisioes wedi archebu ar gyfer Taith 2018-19

<u>Taith Alton Towers</u>
Mynychodd 118 o aelodau'r Rhanbarth ein taith flynyddol i barc hwyl Alton Towers. Llwyddwyd i lenwi tri bws gydag aelodau brwdfrydig o Fôn. Arweinwyd y criw gan dîm o 13 o wirfoddolwyr a dau aelod o staff gan eto fanteisio ar ein twf newydd o wirfoddolwyr ifanc. Cafwyd ddiwrnod arbennig a llwyddiannus iawn.

<u>Taith Llundain</u>
Taith newydd eleni, 44 o aelodau'r Rhanbarth aeth ar ein taith newydd i ymweld â'r ymweld a'r Tŷ Cyffredin, Sioe Lion King, Harry Potter a chyfle i weld atyniadau mwyaf deiniadol Llundain!

<u>Teithiau Eraill</u>

Yn ogystal â'r dair taith uchod, bu llu o deithiau eraill yn ystod y flwyddyn. Fe aeth aelodau o'r Ynys ar daith i Batagonia a Hwngari, gan fagu hunan hyder a datblygu balchder am y Gymraeg ar yr ymweliad. Creuwyd cynnwrf diwylliannol yn y wladfa o ganlyniad i'w ymwelaid.



Yn ogystal gwelwyd taith i Sglefrio Iâ yng Nglannau Dyfrdwy, taith i wylio'r Tîm Rygbi Cenedlaethol yn chwarae yn erbyn Yr Alban yng Nghaerdydd, Taith Fowlio 10, Taith Siopa i Fanceinion, Llanast Llanrwst a WWE.

Bu cyfanswm o 265 o blant a phobl ifanc ar ein teithiau yn ystod y flwyddyn.



Cadeirydd: **Dyfrig Davies**
Prif Weithredwr: **Siân Lewis**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

## Gwersylloedd yr Urdd

‘Rydym yn ffodus iawn ym Môn ein bod yn gallu cynnig teithiau i’r tri gwersyll sydd gan yr Urdd; Glan-llyn, Llangrannog a Chaerdydd.  Mae’r tri gwersyll yn cynnig ystod eang o weithgareddau amrywiol gyda Glan-llyn a Llangrannog yn bennaf yn darparu gweithgareddau awyr agored a Chaerdydd yn darparu ymweliadau er mwyn dysgu am hanes a  diwylliant Cymru.

Eleni mynychodd 975 sef cynnydd o 6% o blant a phobl ifanc o Ynys Môn gyfnod yn un o wersylloedd yr Urdd.

Cyflwynwyd cwrs hyfforddi i alluogi 20 person ifanc fod yn SWOG ar gyfer y dyfodol. Cynigwyd hyfforddiant yn y meysydd canlynol:

Amddiffyn Plant, Cymorth Cyntaf, Systemau Gwersyll, Teithiau Rhanbarthol, Cyfrinachedd, Cynllun Argyfwng yn ogystal a hyfforddiant Ceufadu.












Cadeirydd: **Dyfrig Davies**
Prif Weithredwr: **Siân Lewis**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

**Achredu**

Eleni llwyddwyd i wobwryo 157 o achrediadau i bobl ifanc. Achrediadau yn cynnwys; Cymorth Cyntaf, Cyfranogi a Gwirfoddoli Cymunedol, Profiad Gwaith, Paddle Power, Hwylio a thystysgrifau Gwirfoddoli.

Llwyddodd 77 o bobl ifanc i wirfoddoli gyda'r Mudiad yn ystod y flwyddyn gan gwblhau 1939 sef cynnydd o 9% o oriau gwirfoddoli sydd yn cyfateb i 277 diwrnod gwaith! Er mwyn cydnabod y gwaith diflino yma cyflwynwyd tystysgrif gwirfoddoli Urdd Gobaith Cymru i'n pobl ifanc.

Cyflwynwyd yr holl dystysgrifau eleni yn ystod noson wobrwyo Cyngor Sir Ynys Môn yn Ysgol Uwchradd Bodedern. Teimlwyd balchder gan y staff a swyddogion y Pwyllgor Rhanbarth wrth weld y llwyfan yn llenwi gydag aelodau'r Urdd. Carwn ddiolch i Enid Williams yng Nghyngor Môn am ei holl gefnogaeth.



**Sul yr Urdd**

Unwaith eto eleni  cynhaliwyd gwasanaeth Sul yr Urdd yn Eglwys Sant Mihangel, Gaerwen. Daeth aelodau o'r Fforwm Ieuenctid Adran ac Uwch Adran Gaerwen, Adran Bro Alaw, Uwch Adran yr Ynys a Aelwyd yr Ynys ynghyd i ddarllen a chyflwyno emynau o dan arweiniad y Canon Emlyn Williams. Pleser oedd gweld gymaint o bobl ifanc yn cynrychioli'r Urdd ac yn cymdeithasu ar ôl y gwasanaeth gyda aelodau o'r gymuned. Roedd yn brofiad hyfryd ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r bobl ifanc am eu parodrwydd i gymryd rhan. Mae Sul yr Urdd erbyn hyn wedi ei ail gyflwyno fel rhywbeth blynyddol.





Cadeirydd: **Dyfrig Davies**
Prif Weithredwr: **Siân Lewis**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

**Chwaraeon**

Mae chwaraeon yn parhau i fod yn boblogaidd iawn. Gwelwyd  3484 yn cymryd rhan yn ein cystadlaethau Cynradd eleni. Rydym yn cynnal ystod eang o gystadlaethau, megis Athletau, Pêl-droed, Nofio a Gymnasteg.

Mae clybiau chwaraeon ar hyd a lled yr Ynys yn parhau i fod yn boblogaidd. Rydym yn falch o ddweud ein bod yn cynnig  clybiau Pêl-droed, Rygbi, Pêl-rwyd ac aml chwaraeon ar y cyd ag Adran Chwaraeon yr Urdd.

Er mwyn sicrhau ein bod yn parhau yn gyfredol, mae clybiau newydd wedi  eu sefydlu ar yr Ynys, gyda chlwb Pêl-rwyd  ym Modedern a chlwb Rygbi i blant bach yn Llangefni ar fore Sadwrn.

Mae cynrychiolaeth dda gan ysgolion ac adrannau'r Rhanbarth yn y Cystadlaethau Cenedlaethol gydag ambell i wobr yn dychwelyd i Fôn.

**Prentis Chwaraeon**

Mae'r Pwyllgor Rhanbarth wedi busoddi £4000 o'n arian wrth gefn er mwyn cyflogi Prentis Chwaraeon llawn amser ar yr Ynys. 'Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn y nifer o glybiau wythnosol yn ogystal a tŵf yn ein Aelodaeth. Mae cannoedd o blant yn mynychu'n clybiau Chwaraeon yn wythnosol.











Cadeirydd: **Dyfrig Davies**
Prif Weithredwr: **Siân Lewis**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

**Eisteddfodau**

Mae'r Eisteddfodau yn parhau i fod yn rhan allweddol o'n gwaith. Mae cyfanswm o 11 digwyddiad Eisteddfodol oddi fewn i'r Rhanbarth yn flynyddol. Eleni cafwyd cyfanswm o 3312 o bobl yn cofrestru i gystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau llwyfan a 1171 yn cystadlu mewn cystadlaethau Celf a Chrefft gwahanol.

'Rydym yn ffodus o wirfoddolwyr ffyddlon yn ein Cylchoedd ac yn y Rhanbarth sydd yn cynorthwyo'r Staff dros y cyfnod. Mae teyrngarwch ein gwirfoddolwyr yn allweddol i sicrhau llwyddiant ein eisteddfodau. Nid oes unrhyw fodd y gallwn eu cynnal hebddynt ac rydym fel staff yn hynod o ddiolchgar.

Mae byddin o wirfoddolwyr yn hyfforddi plant a phobl ifanc y Rhanbarth yn flynyddol, boed mewn Llefaru, Canu, Dawnsio, Celf a Chrefft neu Goginio! Ia, mae coginio bellach yn rhan o Eisteddfod yr Urdd!

Gwelwyd niferoedd cadarnhaol yn cofrestru yn y cystadlaethau galwedigaethol newydd! Cystadlaethau yn cynnwys trin gwallt a gofalu am geir.

















Cadeirydd: **Dyfrig Davies**
Prif Weithredwr: **Siân Lewis**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

**Pwyllgorau / Fforwm Ieuenctid**



Pwyllgorau Cylch a Rhanbarth
Mae pedwar Pwyllgor Cylch ym Môn a'r pwyllgorau yma sydd yn cynorthwyo'r Mudiad oddi fewn i'r cylchoedd (Oddeutu 28 o wirfoddolwyr) ac yn adrodd i'r Pwyllgor Rhanbarth (oddeutu 16 o wirfoddolwyr) sydd yn gyfrifol am rediad yr Urdd ar yr Ynys.

**Fforwm Ieuenctid Ynys Môn:**
Mae'r Fforwm Ieuenctid yn mynd o nerth i nerth. Credaf fod y cynnydd mewn niferoedd a gweithgareddau'r Fforwm wedi bod yn amlwg yn y deuddeg mis diwethaf. Maent yn bobl ifanc galluog, ymroddgar sydd yn cynrychioli'r Ynys gydag urddas ac angerdd yng nghyfarfodydd Bwrdd Syr IfanC. Rydym yn elwa gymaint o wrando ar leisiau'r bobl ifanc. Mae clywed eu barn yn sicrhau ein bod fel mudiad yn parhau i fod yn gyfredol ac yn atyniadol i bobl ifanc yr Ynys. Yn ogystal â gwirfoddoli mewn llu o weithgareddau'r Urdd, mae'r Fforwm hefyd wedi casglu arian tuag at elusennau teilwng iawn sydd yn gweithredu yn ein cymunedau.

**Llysgenhadon:**
Rydym yn ffodus iawn o gael Llysgenhadon yn ein hysgolion Uwchradd yma ar yr Ynys. Gofynnwyd i'r bobl ifanc wneud ceisiadau i fod yn Llysgenhadon yn eu hysgolion ac yna roedd y ceisiadau yn cael eu cyflwyno i banel o swyddogion yr Urdd. Mae'r Llysgenhadon yn gyswllt cyson o fewn yr ysgol, ac yn gymorth mawr pan mae angen hysbysebu digwyddiad, trefnu cyfarfod neu gynnal gweithgaredd o fewn yr ysgol. Fel mudiad rydym mor ddiolchgar o gael pobl ifanc dibynadwy a pharod eu cymwynas i'n cynorthwyo i godi ymwybyddiaeth am waith yr Urdd.

**Bwrdd Syr IfanC :**
O ganlyniad i ddatblygiadau ein Fforymau Ieuenctid yn rhanbarthol, mae'r Bwrdd hefyd wedi mynd o nerth i nerth. Pleser yw gwrando ar bobl ifanc brwdfrydig yn trin a thrafod materion pwysicaf yr Urdd, ac ysbrydoledig yw clywed canlyniadau eu trafodaethau. Rydym yn ffodus o gael cynrychiolaeth o Gymru gyfan ar y Bwrdd. Yn bresennol mae'r Bwrdd yn gweithio yn galed i sicrhau ein bod yn parhau yn gyfoes ac yn cynllunio gweithgareddau byrlymus i arwain y Mudiad tuag at ddathliad mawr y cant yn 2022





Cadeirydd: **Dyfrig Davies**
Prif Weithredwr: **Siân Lewis**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

Urdd


**Adrannau / Aelwydydd / Ysgolion**

Mae 53 cangen ym Môn ac mae’r mwyafrif helaeth yn cymryd rhan yng ngweithgareddau’r Mudiad yn gyson. Mae 9 adran gymunedol yma sydd yn darparu cyfleoedd i blant cynradd ac Ieuenctid y rhanbarth yn ogystal â’r clybiau chwaraeon.

<u>Adrannau Cymunedol</u>
Mae’r 9 adran gymunedol yn cael eu rhedeg yn gyfan gwbl gan dîm brwd o wirfoddolwyr. Maent yn rhoi oriau maith o’u gwirfodd er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ar gael yn y Gymraeg yn eu cymunedau - mae ein diolch yn fawr iddynt.

<u>Aelwydydd</u>
Mae dwy Aelwyd ar yr Ynys yn darparu cyfleoedd a gweithgareddau amrywiol i’n pobl ifanc, Aelwyd Yr Ynys, ac Amlwch. Mae’r gweithgareddau yn amrywio o ganu a dawnsio, i deithiau hwyliog.

<u>Ysgolion</u>
Allan o’r 43 Ysgol ym Môn mae 40 yn ymwneud a’r Urdd. Rydym yn parhau i weithio yn agos iawn gyda’r Ysgolion Cynradd a’r Uwchradd. Rydym yn ffodus iawn bod nifer fawr o’n hathrawon a’n prifathrawon yn rhannu gweledigaeth yr Urdd o ddarparu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc y Rhanbarth.






Cadeirydd: **Dyfrig Davies**
Prif Weithredwr: **Siân Lewis**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

**Y dyfodol…**

Fel tîm cyflogedig rydym yn ddiolchgar iawn o allu cefnogi dros 200 o wirfoddolwyr oddi fewn i'r Rhanbarth.  Rydym yn amcangyfrif bod dros 15,000 o oriau yn cael eu rhoi yn flynyddol gan y tîm o wirfoddolwyr. Mae ein dyled ni fel staff yn fawr iawn iddynt. Yn sicr ni fyddai unrhyw fodd darparu'r holl weithgareddau heb y tîm.

Mae'r flwyddyn i ddod yn mynd i fod yn un gyffrous, rydym eisoes wedi trefnu teithiau i Disneyland, Paris gyda theithiau eraill ar y gorwel!

Mae'r Aelodaeth ar gyfer 2017-2018 yn barod yn uwch na'r llynedd ac rydym wedi torri ein Record yma ar yr Ynys am yr AIL flwyddyn yn olynnol sydd yn galonogol dros ben ac yn dystiolaeth o ddatblygiad yr Urdd ar yr Ynys.

Credwn ein bod ar hyn o bryd mewn lle cadarn a bod yr holl waith yn golygu bod plant a phobl ifanc yn datblygu i fod yn ddinasyddion cyflawn o fewn eu Cymunedau.

Os hoffech gefnogi gwaith yr Urdd ar yr Ynys boed yn wirfoddol, ariannol neu mewn unrhyw ffordd arall, mae croeso i chi gysylltu ag eryl@urdd.org  neu 01407 470010.



Ynys Môn



Cadeirydd: **Dyfrig Davies**
Prif Weithredwr: **Siân Lewis**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481